

Grŵp Gorchwyl a Gorffen Parth Cadwraeth Morol

Nodiadau a Chamau Allweddol

Teitl y Cyfarfod	Grŵp Gorchwyl a Gorffen Parth Cadwraeth Morol		Dyddiad	9.4.19
Rhif y Cyfarfod	1	Amser Dechrau	10.15am	Amser Gorffen 2.00pm
Lleoliad	Amgueddfa Cymru, Caerdydd			
Yn bresennol	Peter Davies (Cadeirydd), Jim Evans (Cymdeithas Bysgotwyr Cymru), James Byrne (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru), Gill Bell (Y Gymdeithas Cadwraeth Forol), Emily Williams (Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar), Alan Morgan (British Marine), Peter Barham (Grŵp Defnyddwyr Gwely'r Môr), Duncan Savage, Y Gymdeithas Hwyllo), Mark Russell (Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain), Phil Hollington (Cragen Llyn a Môn), Mike Parry (Partneriaeth Pwllheli), Gareth Bevington (LIC), Louise George (LIC), Chris Parfitt (LIC), Dan Crook (CNC), Natasha Lough (CNC), Louisa Jones (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur), Hannah Carr (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur), Erian Kettle (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur).			
Ymddiheuriadau	David Jones (Ynni Môr Cymru / Cyngor Partneriaeth Cymru), Alice Collier (Ystad y Goron).			

#	Eitem Agenda
1.	Croeso a chyflwyniadau
2.	Cefndir a chyflwyno'r sefyllfa
3.	Asesiad y Rhwydwaith – proses a chanlyniadau
4.	Datblygu dull o nodi Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru
5.	Nodi Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru – y cyfnodau statudol
6.	Data a Thystiolaeth
7.	Camau Nesaf

8.	Gorffen
----	---------

2. Cefndir a chyflwyno'r sefyllfa	
(Rhoddwyd cyflwyniad)	
Nodiadau	Camau
<p>Nododd Llywodraeth Cymru (LIC) ei hymrwymiad parhaus i sicrhau bod Cymru yn cwblhau ei chyfraniad i rwydwaith ecolegol cydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Mae Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r rwydwaith. Fodd bynnag, nododd Aseiad Rhwydwaith 2016 gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur nifer o fylchau mewn cynefinoedd a rhywogaethau digoes.</p> <p>Rôl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yw nodi Parthau Cadwraeth Morol posibl i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Mae Parthau Cadwraeth Morol ar gyfer rhywogaethau symudol iawn, a nodi nodweddion ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol Skomer, yn cael ei ystyried gan y Tîm Prosiect a bydd yn cael sylw yn y prosiect, gydag amseriadau/camau i'w pennu.</p> <p>Esboniodd LIC mai'r pwrpas oedd i'r aelodau cyntaf gael eu cynnwys wrth ddatblygu dull / proses ar gyfer adnabod Parthau Cadwraeth Morol yn nyfroedd Cymru. Er mwyn helpu i drafod, rhannwyd proses fesul cam a ddrafftwyd gan y Tîm Prosiect gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer eu barn. Bydd y dull hwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael, yn ceisio lleihau'r effeithiau ar ardaloedd o ddiddordeb economaidd-gymdeithasol, ac ni fydd ganddo lefel o ddiogelwch rhagnodedig ar gyfer safleoedd. Mae wedi ystyried canfyddiadau adolygiad Parthau Cadwraeth Morol 2013: [https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/130717task-and-finish-team-report-on-mczs-in-wales-en.pdf].</p> <p><i>Tîm Prosiect yn bresennol : Louise George, Natasha Lough, Dan Crook, Louisa Jones a Hannah Carr.</i></p>	<p>1. LIC i siarad â Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Barth Cadwraeth Forol Skomer ac ymgysylltu â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.</p>
3. Yr Aseiad Rhwydwaith – proses a chanlyniadau	
(Rhoddwyd cyflwyniad)	
Nodiadau	Camau
Rhoddodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur grynodedig i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Aseiad	2. Tîm Prosiect i ailasesu

<p>Rhwydwaith 2016, gan nodi ei ganfyddiadau allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bylchau yn rhanbarth Môr Iwerddon: gwaddod bras islanwol, gwaddod cymysg islanwol, cymunedau sbwng bregus ac anthozoan a gwyntyll môr pinc; • Mae bylchau yn Rhanbarth y Gorllewin: gwaddod bras islanwol, tywod islanwol, llaid islanwol, mwd mewn dŵr dwfn, pen y môr a megafauna tyllu a chregyn morwyn fwyaf y cefnfor; a • Canfu'r asesiad hefyd nad yw'r silff alltraeth wedi'i chynrychioli'n ddigonol yn y rhwydwaith a bod bylchau mewn cysylltedd ar gyfer cynefinoedd gwaddod. <p>Trafododd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y targed digonolrwydd o 10% ar gyfer cyfran y cynefinoedd ar raddfa eang a warchodir o fewn y rhwydwaith, a oedd yn wahanol i'r targed a ddefnyddiwyd gan Defra yn ei asesiad (20%). Defnyddiodd Asesiad Rhwydwaith 2016 y lleiafswm o 10% fel yr argymhellwyd gan OSPAR. Dangoswyd y canlyniadau ar gyfer pob cynefin ar raddfa eang o fewn Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru lle'r oedd mwyafrif y cynefinoedd yn rhagori ar darged o 20% (gweler Tabl 1 ar ddiwedd y ddogfen).</p>	<p>asesiadau gan ddefnyddio targedau 10% a 20% ar gyfer cynefinoedd ar raddfa eang a chyflwyno i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'w drafod ymhellach.</p>
<p>4. Datblygu dull o nodi Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru</p> <p>(Rhoddwyd cyflwyniad)</p>	
<p>Nodiadau</p>	<p>Camau</p>
<p>Er mwyn rhoi ffocws ar gyfer trafodaeth bellach, cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dull fesul cam canlynol ar gyfer nodi Parthau Cadwraeth Morol (yn benodol camau 1-3 o broses 7 cam a awgrymwyd, camau 4-7 o dan eitem agenda 5). Roeddynt yn pwysleisio natur symlach a damcaniaethol rhai o'r enghreifftiau a roddwyd yn y cyflwyniad.</p> <p>Cam 1 Nodi Meysydd Chwilio Eang</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael. • lleihau'r effaith ar fuddiannau economaidd-gymdeithasol drwy eithrio ardaloedd o fewn seilwaith presennol/gweithgareddau sydd wedi cael cydsyniad. • nodi lle gallai Parthau Cadwraeth Morol aml-nodwedd fod yn opsiwn. <p>Cam 2 Nodi Ardaloedd Dewisol</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio gwybodaeth am asesiadau buddiannau economaidd-gymdeithasol sefydledig, sensitifrwyd a phwysau i gyfyngu'r Meysydd Chwilio Eang i Ardaloedd Dewisol. <p>Cam 3 Nodi Parthau Cadwraeth Morol posibl</p>	<p>3. Dosbarthu cyflwyniadau i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen</p> <p>4. Cytunodd y Tîm Prosiect y bydd, wrth gyflwyno Meysydd Chwilio Eang i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yn glir os yw'r data ategol a ddefnyddir wedi'i fodelu neu heb ei fodelu a'r lefelau hyder cysylltiedig.</p>

- coethi ardaloedd dewisol ymhellach a phennu ffiniau ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol posibl

Trafododd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr angen i fod yn ofalus wrth gynnig safleoedd ar sail data wedi'i fodelu. Cadarnhaodd LIC yn dilyn nodi Parthau Cadwraeth Morol posibl, y gallai fod angen gwaith arolygu ychwanegol i gadarnhau presenoldeb / dosbarthiad nodwedd ymhellach.

Cafwyd awgrym gan aelod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen y dylid ystyried yr holl ffactorau economaidd-gymdeithasol (positif a negyddol) er mwyn cael barn gytbwys, gan gynnwys nodi'r manteision a ddeuai o Barthau Cadwraeth Morol, e.e. plymio, twristiaeth a manteision cymdeithasol, yn hytrach na chanolbwyntio ar leihau effeithiau economaidd-gymdeithasol negyddol yn unig.

5. Sesiwn Grŵp

Nodiadau

Gofynnwyd i bob grŵp ddarparu safbwyntiau ar Gamau 1-3 (uchod) ac ystyried y cwestiynau canlynol:

C1. Beth yw eich barn chi ar hyn fel dull i nodi Parthau Cadwraeth Morol posibl? Oes unrhyw beth heb ei gynnwys?

C2. Fyddech chi'n addasu neu'n newid y dull? Pam?

C3. Beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol? Pam?

Os ydych chi o blaid y dull:

C4. Oes gweithgareddau eraill y dylid eu defnyddio yng ngham 1 (pennu meysydd chwilio eang)?

C5. Pa ddata ar weithgarwch ddylid ei ddefnyddio i lywio'r broses o nodi Parthau Cadwraeth Morol posibl yng nghamau 2 a 3?

Grŵp 1: Natasha Lough, Louisa Jones, Erian Kettle, Chris Parfitt, Gareth Bevington, Peter Davies, Peter Barham, Gill Bell, Phil Hollington, Mike Parry ac Alan Morgan.

Pwyntiau trafod:

- Cefnogaeth gyffredinol i'r dull cam wrth gam ar gyfer nodi Parthau Cadwraeth Morol.
- Myfyrdodau o brosiectau Parthau Cadwraeth Morol Rhanbarthol Lloegr: nodwyd safleoedd ar dystiolaeth lefel isel / anecdotaidd a arweiniodd at ddiffyg hyder ym mhwsigrwydd ystyrion yr argymhellion. Mae'n amlygu pwysigrwydd data gwyddonol o fewn y sylfaen dystiolaeth.
- Dysgu gwersi o brosesau blaenorol - nid oedd y llwybr o nodi safleoedd ar sail y gwrthwynebiad lleiaf ac yna eu cyflwyno i gymunedau wedi derbyn llawer o gefnogaeth.
- Bydd cyflwyno economeg gymdeithasol yn gynnar yn y cyfnod yn arbed amser a ffwdan. Fel arall, gallai beri i brif safleoedd gael eu diystyru.
- Mae gwrthrychedd yn allweddol i gydbwysu cydlynid ecolegol a buddiannau'r diwydiant.
- Angen cynnwys parthau clustogi a symud nodweddion; rhaid iddo fod yn seiliedig ar wyddoniaeth.
- Angen data da ar weithgareddau economaidd-gymdeithasol.
- Mae'n hanfodol cyfathrebu'r dull yn effeithiol fel bod rhanddeiliaid yn ymwybodol y bydd gofyn am eu mewnbwn / ei fod yn cael ei werthfawrogi.
- Dylid cyhoeddi strategaeth gyfathrebu ynghyd â dull o gynyddu hyder y cyhoedd yn y broses. Ystyried rôl ar gyfer Grŵp Gorchwyl a Gorffen o fewn strategaeth o'r fath.
- Mae ymgysylltu ehangach ac ymgysylltu cymunedol yn gyfrifoldeb i bawb - nid yw'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru yn unig. Mae gan bob aelod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyfrifoldeb i gyflwyno negeseuon i'r grwpiau / rhwydweithiau y maent yn eu cynrychioli.
- Mae tryloywder y broses yn allweddol - rhaid i randdeiliaid fod yn ymwybodol o'r broses ac yna gallant gyfrannu ati.
- Mae'n hanfodol bod Meysydd Chwilio Eang yn cael eu cadw'n eang iawn er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd drafod ymhellach a rhoi barn.
- Ystyried addasu dull gweithredu i gynnwys mewnbwn ehangach gan randdeiliaid rhwng Cam 2 a 3. Felly, unwaith y bydd yr opsiynau a ffefrir wedi cael eu nodi gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, gellid ymgysylltu ar ffurf sioe deithiol i gasglu gwybodaeth cyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen bennu ffiniau yng nghanam 3.
- Dylid ymchwilio i'r defnydd o'r cyfryngau a chyfryngau allgymorth eraill i ymgymryd â 'sioeau teithiol' ac ar-lein.
- Addysg ac allgymorth i blant ifanc a fydd yn eu tro yn rhoi pwysau ar eu rhieni i weithredu.
- Efallai cynnwys cyfalaf naturiol yn y wybodaeth gan gydnabod bod cadwraeth yn dod yn gyntaf. Manteision safleoedd a warchodir yn dda y gellir eu gwneud yn fwy amlwg i bobl.

Grŵp 2: Louise George, Hannah Carr, Dan Crook, James Byrne, Emily Williams, Duncan Savage, Jim Evans a Mark Russell.

Pwyntiau trafod:

- Ystyried Parthau Cadwraeth Morol o amgylch SoDdGA i gynnwys ardaloedd twrio am fwyd ar gyfer adar, ar hyn o bryd maent yn cael eu diogelu fel nodweddion daearol.

- Sut ydym ni'n archwilio buddiannau rhanddeiliaid y tu hwnt i Gymru - Pwy ydyn nhw? Sut ydym ni'n ymgysylltu â nhw?
- Buddiannau nad ydynt yn y DU mewn dyfroedd alltraeth - Gwlad Belg, Ffrainc, Iwerddon, Ynys Manaw.
- Yn ogystal â lleihau effeithiau negyddol yn unig, gall newid pethau a nodi Parthau Cadwraeth Morol mewn ardaloedd a fyddai o fudd i fuddiannau economaidd-gymdeithasol.
- Manteision Parthau Cadwraeth Morol - ystyriwyd arolwg Croeso Cymru ynghylch twristiaeth bywyd gwyllt.
- Targedau digonolrwydd - allwn ni gymharu 10% ag 20%?
- Rhaid ystyried costau rheoli a monitro safleoedd.
- Mae angen i waith Grwpiau Gorchwyl a Gorffen fod yn dryloyw.
- Proses wedi'i harwain gan dystiolaeth, sy'n glir am natur ac ansawdd y data a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd.
- Angen eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldeb ar bob cam o'r broses. Pwy sy'n gyfrifol am beth?

5. Nodi Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru - y camau statudol

(Rhoddwyd cyflwyniad)

Nodiadau

Cyflwynodd LIC y camau gofynnol yn y broses (Camau 4-7) gan Parthau Cadwraeth Morol a argymhellwyd drwy'r dynodi, gyda'r rhain yn cael eu harwain gan ddeddfwriaeth yn bennaf:

- **Cam 4 LIC yn ceisio cyngor gan CNC/ Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ar ddigonolrwydd** y Parthau Cadwraeth Morol a argymhellwyd gan gynnwys lefel hyder mewn tystiolaeth ac a ydynt yn mynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd.
- **Cam 5 Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol**
- **Cam 6 Adolygiad o'r Ymateb i'r Ymgynghoriad**
- **Cam 7 Penderfyniad Gweinidogion i Ddynodi Parthau Cadwraeth Morol**

Bydd yr amserlen ar gyfer pob cam yn dibynnu ar a oes angen rhagor o dystiolaeth e.e. cryfhau hyder ym mhresenoldeb a hyd a lled nodwedd a/neu ganlyniad yr ymgynghoriad ffurfiol.

O dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, rhaid mabwysiadu a dynodi Parthau Cadwraeth Morol o fewn 12 mis i'r ymgynghoriad, fel arall mae angen ail-ymgynghori.

Trafododd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a'r angen i'w gwneud yn real a pherthnasol; gall fod tuedd i dangynrychiolio'r effeithiau economaidd. O ran cyflwr nodwedd, mae'r defnydd o 'anhysbys' yn dderbyniol a dylid ei ddefnyddio i amlygu bylchau tystiolaeth. Awgrymiadau am fylchau mewn tystiolaeth, "os nad ydym yn gwybod, yna rhaid dweud nad ydym yn gwybod".

Camau

Amh

6. Data a Thystiolaeth (Rhoddwyd cyflwyniad)	
Nodiadau	Camau
<p>Darparodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wybodaeth am y gwaith sydd ar y gweill ac a gynlluniwyd i sicrhau bod y broses o nodi Parthau Cadwraeth Morol yn defnyddio'r wybodaeth/dystiolaeth orau sydd ar gael. Bydd dwy alwad am weithredu drwy gydol y broses i sicrhau bod mynediad at yr holl wybodaeth berthnasol.</p> <p>Trafododd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen safoni data ac a yw pennu fformatau safonol yn peryglu 'colli' rhai setiau data. Nodwyd materion yn ymwneud ag oedran y setiau data e.e. data cenhedlaeth yn erbyn setiau data tymor hir, gydag asesiadau o hyder data yn gyffredinol yn canfod bod mwy o hyder mewn data mwy diweddar.</p>	Amh
7. Camau nesaf	
Nodiadau	Camau
<p>Crynodeb o'r dydd: Yn gyffredinol mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cefnogi'r broses fesul cam a awgrymir gyda rhywfaint o addasu. Bydd y Tîm Prosiect yn ystyried barn ar y pryd ac yn datblygu'r broses ymhellach. Bydd fersiynau yn y dyfodol yn cael eu rhannu gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer sylwadau trwy e-bost.</p> <p>Cytunwyd i'r Tîm Prosiect nodi'r gwaith (camau, adnoddau ac amser) sy'n ofynnol i ystyried/yngorffori rhywogaethau symudol iawn i'r cam cyntaf hwn o waith, ar gyfer trafodaeth yn y dyfodol gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.</p> <p>O ran y potensial ar gyfer ychwanegu at aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, roedd cytundeb ynglŷn â'r angen i gydbwysu maint y Grŵp er mwyn sicrhau bod ganddo bobl hanfodol a all wedyn roi adborth/cyflwyno barn gan ac i'w rhwydweithiau/aelodau. Tîm y Prosiect i ystyried sut i ymgysylltu â buddiannau pysgota rhyngwladol ac a oes rôl i Swyddogion Safle Morol Ewropeaidd Cymru.</p> <p>Y cyfarfod nesaf: Tîm Prosiect yn debygol o ailymgynnull y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ystod hydref 2019 i</p>	<p>5. Y Tîm Prosiect i addasu'r broses a chyflwyno i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gael ei sylwadau.</p> <p>6. Y Tîm Prosiect i ystyried anghenion adnoddau ar gyfer ymgorffori rhywogaethau symudol iawn i'r cam hwn o'r gwaith.</p> <p>7. Y Tîm Prosiect i adolygu aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.</p>

ystyried Meysydd Chwilio Eang a'i ystyried i ddrafftio opsiynau ardal ddewisol. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar gynnydd a galw am yr adnoddau sydd ar gael i'r Tîm Prosiect drwy gydol yr haf.

Cloi

Tabl 1: Targed Digonolrwydd % Cynefinoedd ar raddfa eang a ddiogelir mewn Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru

Rhanbarth Môr Iwerddon			
Cynefin ar raddfa eang	Ardal yng Nghymru/C P2 (km2)	Ardal mewn Ardaloedd Cadwraeth Morol (km2)	% mewn Ardaloedd Cadwraeth Morol
Craig isforlan fas egni uchel	142.4	87.7	61.6
Craig isforlan egni cymedrol	23.1	10.7	46.3
Craig isforlan fas egni isel	3.8	2.2	58.5
Craig isforlan ddofn egni uchel	285.0	86.0	30.2
Craig isforlan ddofn egni cymedrol	725.5	65.0	16.6
Craig isforlan ddofn egni isel	0.6	0.0	,0.0
Gwaddod bras isforlannol	10361.1	412.0	4.0
Tywod isforlannol	2945.3	467.9	15.9
Mwd isforlannol	230.6	63.3	27.5
Gwaddod cymysg isforlannol	2944.1	86.9	3.0
Cymunedau isforlannol ar waddod lle mae macroffytâu yn drech	59.1	46.8	79.3
Riff biogenig isforlannol	31.8	6.6	20.7

Rhanbarth Sianel y Gorllewin a Rhanbarth y Moroedd Celtaidd			
Cynefin ar raddfa eang	Ardal yng Nghymru/C P2 (km2)	Ardal mewn Ardaloedd Cadwraeth Morol (km2)	% mewn Ardaloedd Cadwraeth Morol
Craig isforlan fas egni uchel	31.94	22.54	70.6
Craig isforlan egni cymedrol	5.93	5.31	89.6
Craig isforlan fas egni isel	0.18	0.18	100.0
Craig isforlan ddofn egni uchel	396.28	132.15	33.3
Craig isforlan ddofn egni cymedrol	224.48	87.79	39.1
Craig isforlan ddofn egni isel	2.17	0.35	16.1
Gwaddod bras isforlannol	3236.01	222.29	6.9
Tywod isforlannol	5857.19	481.35	8.2
Mwd isforlannol	2241.60	86.39	3.9
Gwaddod cymysg isforlannol	400.18	65.74	16.4
Cymunedau isforlannol ar waddod lle mae macroffyttau yn drech	11.17	8.97	80.3
Riff biogenig isforlannol	23.55	12.50	53.1